



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Feithrinfa Seren Fach
Brithdir
Dolgellau
LL40 2RP**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2018

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Meithrinfa Seren Fach sydd yn cwrdd mewn hen gapel ym mhentref Brithdir, ger Dolgellau yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 34 o blant rhwng 3 mis a 8 blwydd oed. Mae ymarferwyr yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar i 3 phlentyn sydd yn cael eu hariannu ac mae 56 o blant ar y gofrestr. Mae'r lleoliad ar agor am bum diwrnod yr wythnos o 7.30 o'r gloch y bore hyd 6 o'r gloch yr hwyr.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw lleiafrif o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi 10 ymarferydd amser llawn ac un rhan amser a rheolwraig. Penodwyd y rheolwraig i'w swydd ym mis Tachwedd 2005.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mawrth 2016 a gan Estyn ym mis Rhagfyr 2011.

Crynodeb

| | |
|---|-----------------|
| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Rhagorol |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar ble mae'r ymarferwyr yn groesawgar, yn parchu'r plant fel unigolion ac yn sensitif i'w hanghenion er mwyn cydnabod a chymeradwyo eu hunigolrwydd
- profiadau dysgu yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion plant sydd yn eu hysgogi i ddysgu; yn tanio eu chwilfrydedd i ddarganfod ac yn eu datblygu'n llwyddiannus fel dysgwyr annibynnol
- tasgau llythrennedd a rhifedd yn herio llawer o'r plant yn gyson, mewn gweithgareddau tu fewn a thu allan fel bod cydlynid ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm.
- ymarferwyr yn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau, cyflwyno syniadau a datrys problemau newydd yn effeithiol trwy eu hannog i ystyried eu gwaith er mwyn ceisio ei wella
- ymarferwyr yn datblygu medrau llafar Cymraeg y plant yn effeithiol iawn trwy gyfleoedd a gynlluniwyd yn ddigymell yn ystod y sesiwn
- ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus iawn
- plant yn cael mynediad cyson i ardal ddysgu allanol rhagorol sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol iawn i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a chorfforol y plant

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn rhagorol oherwydd bod:

- y rheolwraig a bwrdd y cyfarwyddwyr yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellir ei ddatblygu ymhellach trwy drefniadau cyson a chydamserol ardderchog ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd
- safon arweinyddiaeth feistrolgar y rheolwraig yn cael effaith gadarnhaol iawn dros amser ar ddatblygu darpariaeth effeithiol a chodi deilliannau plant
- y rheolwraig yn buddsoddi yn lles a datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr er mwyn sefydlu tîm o ymarferwyr egniol a brwdfrydig
- gan y lleoliad uwch dîm rheoli cydwybodol a gwybodus sy'n arwain gwaith yr ymarferwyr ar draws adrannau er mwyn datblygu nodau ac amcanion clir
- bwrdd y cyfarwyddwyr yn sefydlog, yn wybodus ac yn weithredol iawn ym mywyd y lleoliad wrth reoli ei hadnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad
- rhanddeiliaid yn teimlo perchnogaeth ac atebolrwydd er mwyn symud y lleoliad yn ei blaen

Argymhellion

- A1 Defnyddio asesiadau ymarferwyr yn effeithiol er mwyn cynllunio gweithgareddau sydd yn herio pob plentyn yn rheolaidd, yn enwedig y rhai mwy abl
- A2 Sicrhau bod nod ac amcanion y gweithgareddau yn eglur fel bod ganddynt ffocws clir ar ddatblygu medrau plant yn gydlynol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Meithrinfa Seren Fach yn paratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Safonau:

Lles:

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r lleoliad, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus dros ben, yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys trwy ystod eang o weithgareddau ysgogol i'r plant. Mae'r profiadau dysgu yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion plant sydd yn eu hysgogi i ddysgu, ac yn tanio eu chwilfrydedd i ddarganfod. Mae'r ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol trwy eu cynnwys yn y gwaith cynllunio a'u hannog i fynegi eu diddordebau yn y themâu tymhorol. Mae ymarferwyr yn mapio syniadau'r plant fel man cychwyn ac yn eu harwain yn fedrus i ddysgu am eu cymuned yn ogystal â'r byd ehangach. Er enghraifft, cânt eu herio'n briodol i gymharu a chreu adeiladau o bedwar ban byd fel Castell Harlech a Thŵr Pisa, yn ogystal â choginio a blasu bwydydd gwahanol. Mae arweinydd y cyfnod sylfaen yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a meddwl y plant yn gynyddol.

Mae ymarferwyr yn gwerthuso'r gweithgareddau mewn cyfarfodydd wythnosol er mwyn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddarllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn caffael eu medrau gyda hyder a chywirdeb cynyddol yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn herio llawer o'r plant yn gyson, mewn gweithgareddau tu fewn a thu allan, fel bod cydlynid ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn rheolaidd am y niferoedd sydd yn gweithio yn yr ardaloedd gwahanol trwy eu hannog i gyfri ac adnabod y rhifau wrth y mynedfeydd.

Mae'r cynllunio ar gyfer gwneud marciau ysgrifennu cynnar a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ysgogol a deniadol. Mae'r gweithgareddau hyn yn herio llawer o'r plant yn briodol i wneud marciau ac ymchwilio i briodweddau rhifau a siapiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i blant gofnodi dewisiadau a defnyddio arian wrth dalu am wyliau yn yr asiantaeth deithio. Mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am ddiwylliant, bwydydd, ieithoedd a phrif nodweddion gwahanol wledydd fel Sbaen a'r Almaen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn gadarn. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddefnyddio cyfrifiaduron, llechi electronig, camerâu, chwaraewyr cryno ddisg a chlustffonau. Mae'r ymarferwyr rhoi cyfleoedd buddiol i blant reoli teganau electronig, er enghraifft trwy eu cymell i fynd â Mr Urdd ar daith er mwyn cyrraedd yr Eisteddfod yn ddiogel. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae llawer o'r plant yn datblygu medrau TGCh da iawn. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt berfformio ar y llwyfan yn yr ardal tu allan.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar yr iaith Gymraeg yn dda iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn ardderchog. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl yn eu dysgu trwy sicrhau fod yr iaith yn byrlymu ac i'w chlywed drwy gydol y sesiynau. Caiff y dimensiwn Cymreig le amlwg yng nghwricwlwm a gweithgareddau'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus iawn, sy'n cynnwys cystadlu mewn eisteddfod a sioe amaethyddol leol, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu buddiol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a chanu offerynnau cerdd o Affrica

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys teithiau cerdded ar hyd y caeau ac ymweliad i'r siop er mwyn prynu bwyd i'r gegin.

Addysgu: Da

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant a'u hunain. Maent yn ddeheuig iawn wrth adael i blant fentro a darganfod yn annibynnol, cyn ymyrryd er mwyn cynnig cefnogaeth ac arweiniad pellach pan fo angen. Maent yn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau, cyflwyno syniadau a datrys problemau newydd yn effeithiol trwy eu hannog i ystyried eu gwaith er mwyn ceisio ei wella. Mae pob ymarferydd yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig am gyflawniadau'r plant.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn ac am ofynion y cyfnod sylfaen, ynghyd â dealltwriaeth gadarn o sut mae plant yn dysgu. Mae ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu buddiol yn darparu her effeithiol i lawer o'r plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd creadigol a dychmygus o adnoddau i gynnal eu diddordeb fel eu bod yn canolbwyntio ar dasg. O ganlyniad, mae lefel ymrwymiad y rhan fwyaf o'r plant yn dda ac mae llawer yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gweithgareddau adnabod patrymau gan ddefnyddio pegiau o wahanol liwiau. Fodd bynnag, nid yw nod ac amcanion y gweithgareddau bob tro'n ddigon eglur er mwyn sicrhau ffocws clir ar ddatblygu medrau plant yn gydlynol.

Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'u rôl ac maent yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu yn effeithiol, yn enwedig wrth ddatblygu medrau llafar y plant yn llwyddiannus. Mae technegau holi'r ymarferwyr yn effeithiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau meddwl y rhan fwyaf o'r plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg y plant yn effeithiol iawn trwy gyfleoedd a gynlluniwyd yn ddigymell yn ystod y sesiwn. Mae hwn yn gryfder yn y lleoliad ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r plant yn gyfathrebwyr hyderus a huawdl iawn. Mae ymarferwyr yn defnyddio amser cylch yn hynod effeithiol i rannu straeon, datblygu medrau meddwl, trafod cyflawniadau plant ac ystyried yr hyn y byddant yn ei wneud yn ystod y dydd.

Mae pob ymarferydd yn gweithio'n dda iawn fel tîm. Maent yn adolygu ac yn gwerthuso eu harfer a chyflawniadau'r plant yn gyson yn ystod y sesiwn. Mae ymarferwyr yn cofnodi sylwadau defnyddiol o'r plant sy'n cynnwys manylion pwrpasol o'r hyn maent yn ei gyflawni. Mae hyn yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae ymarferwyr yn cychwyn addasu gweithgareddau yn barhaus er mwyn ymestyn cyflawniad unigolion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio deilliannau'r asesiadau hyn yn ddigon effeithiol eto er mwyn cynllunio gweithgareddau pellach sy'n herio plant mwy abl i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel. Mae ymarferwyr yn groesawgar, yn parchu'r plant fel unigolion, ac yn sensitif i'w hanghenion. O ganlyniad, mae plant yn fodlon iawn yng nghwmni oedolion ac maent yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth pan fo angen. Caiff pob plentyn ei drin yn deg a darperir cyfleoedd cyfartal iddynt ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol. Mae'r plant yn cael eu hannog i ofalu am eu hunain a'u ffrindiau ac i helpu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol sy'n herio plant i ystyried peryglon, trwy eu hannog i wneud asesiadau risg eu hunain, yn enwedig wrth iddynt weithio yn yr ardal tu allan. Mae trefniadau cadarn yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfleoedd buddiol i drafod eu teimladau a dweud diolch. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed diod o amgylch y bwrdd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant gymryd rhan weithredol mewn prosiectau amgylcheddol fel ailgylchu papur, cardbord, plastig a bwyd. Mae hyn yn dechrau datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithlon.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol a chyson, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau. O ganlyniad, mae plant yn gyfarwydd iawn â threfn a rheolau'r lleoliad ac mae ymddygiad bron pob un yn ardderchog. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau addas a phrofiad helaeth.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar glo a dim ond ymarferwyr sy'n eu hagar. Mae'r ymarferwyr yn ofalus wrth i blant gael eu casglu ac maent yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer adnabod anghenion dysgu ychwanegol plant pan fyddant yn ymuno ac maent yn ymateb yn llwyddiannus i'w bodloni. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi'r plant hyn. Mae'n cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant gyda rhieni ac asiantaethau ymyrraeth er mwyn sicrhau bod unigolion yn gwneud cynnydd cadarn.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff y plant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod a'i gymeradwyo. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, ysgogol ac eang y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio doliau ac arteffactau fel mygydau a gwisgoedd traddodiadol o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn effeithiol. Mae ymarferwyr hefyd yn datblygu'r plant yn ddinasyddion byd eang gwybodus trwy eu haddysgu am fwydydd o wledydd tramor, dathlu gwahanol wyliau cenedlaethol fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a thrwy rannu storïau moesol o Affrica.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau helaeth yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a'r cyfleoedd i gyfoethogi yn rhannu adnoddau dysgu yn effeithiol. Mae eu defnydd gan y plant yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad ac yn sicrhau bod bron pob un yn gwneud o leiaf gynnydd da yn eu dysgu.

Mae'r plant yn cael mynediad cyson, glaw neu hindda, i ardal allanol ragorol. Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol y plant. Anogir y plant i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i ryngweithio â'r plant er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr ardaloedd dysgu allanol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant bostio llythyrau trwy flychau sydd wedi'u rhifo a pharcio eu beiciau mewn gwagleoedd penodol yn y maes parcio. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn arbennig o dda. Mae'r ardal allanol hefyd yn cynnwys ardaloedd tyfu ac adnoddau sy'n galluogi plant i wneud ymchwiliadau amgylcheddol fel helfeydd trychfilod a chyfleoedd i fwydo'r adar. Mae'r 'chwarel', y llwyfan berfformio a'r gegin fwd yn sicrhau bod medrau creadigol y plant yn cael eu atgyfnerthu'n gadarn iawn a'u trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ardaloedd dysgu tu fewn. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn bwrpasol iawn ac yn manteisio ar y bwyd gwyllt a'r golygfeydd gwledig godidog sy'n amgylchynu'r lleoliad i feithrin gwerthfawrogiad y plant o'u cynefin. Mae'r adeilad a thir y lleoliad o ansawdd eithriadol, wedi ei gynnal yn dda ac yn ddiogel.

| |
|--|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|--|

| |
|-----------------|
| Rhagorol |
|-----------------|

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae trefniadau ar gyfer rheoli'r lleoliad, sydd â ffocws clir iawn ar ddatblygu darpariaeth rymus, yn ardderchog. Mae safon yr arweinyddiaeth feistrolgar hon wedi ei chynnal am gyfnod hir ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau plant. Un o gryfderau'r rheolwraig yw ei dealltwriaeth arbennig o'r angen i ddatblygu gweithwyr cydwybodol a gwybodus. Mae'n gwneud hyn yn llwyddiannus trwy fuddsoddi yn eu lles a'u datblygiad profesiynol. O ganlyniad, mae wedi sefydlu tîm o ymarferwyr egniol a brwdfrydig.

Mae gan y lleoliad uwch dîm rheoli sy'n arwain gwaith yr ymarferwyr ar draws adrannau Meithrinfa Seren Fach yn fedrus ac yn datblygu nodau ac amcanion clir. Mae defnydd pwrpasol o gyfarfodydd adrannau a chyfarfodydd staff gyfan er mwyn trafod blaenoriaethau'r cynllun datblygu, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith dda iawn ar y ddarpariaeth ac ar ddeilliannau plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn meddu ar ddealltwriaeth arbennig o'u cyfrifoldebau er mwyn cyflawni eu rolau yn hynod effeithiol wrth fodloni anghenion y plant.

Mae gan y lleoliad gyfeiriad clir, ymdeimlad o ddiben ac arferion dyddiol cadarn iawn. Mae trefn glir a rhediad esmwyth i'r sesiynau addysgu ac yn ystod cyfnodau bwyta byrbryd a cinio.

Mae sesiynau goruchwylio ymarferwyr yn cynnwys arsylwadau gan y rheolwraig ac aelodau o fwrdd y cyfarwyddwyr. Mae'r gweithgarwch hwn yn llywio gwerthusiadau blynyddol sy'n amlygu anghenion hyfforddi ymarferwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn diweddarau eu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gwybod beth i'w wneud i wella. Er enghraifft, mae is-reolwraig y lleoliad wedi ymgymryd â hyfforddiant buddiol ar sut i ddefnyddio'r ardal allanol. Mae hyn wedi cael effaith ardderchog ar ddeilliannau'r rhan fwyaf o'r plant trwy roi profiadau awyr agored gwerthfawr iawn iddynt. Mae'r rheolwraig hefyd wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer anwytho ymarferwyr newydd.

Mae bwrdd y cyfarwyddwyr, sydd wedi bod yn sefydlog ers dros deng mlynedd, yn wybodus ac yn weithredol iawn ym mywyd y lleoliad. Maent wedi sefydlu perthynas agos iawn gyda'r ymarferwyr ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau gydag arddeliad.

Mae'r polisïau yn gynhwysfawr ac yn berthnasol i waith y lleoliad. Rhoddir ystyriaeth ardderchog i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel bwyta'n iach a meithrin dysgwyr annibynnol a hyderus. Mae'r ffocws yr arweinyddiaeth ar ddatblygu medrau Cymraeg y plant yn eithriadol ac yn gryfder amlwg ar draws y lleoliad.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae gan y rheolwraig drefniadau cyson a chydamserol ardderchog ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd sy'n rhoi cyfeiriad a strwythur cadarn i waith y lleoliad. Mae'r trefniadau hyn wedi cael eu hehangu'n raddol i gynnwys barn ymarferwyr, rhieni a gofawr ym'r awdurdod lleol ac wedi parhau i ganolbwyntio ar ddeilliannau plant er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, mae rhanddeiliaid yn teimlo perchnogaeth ac atebolrwydd er mwyn symud y lleoliad yn ei flaen.

Mae'r rheolwraig a bwrdd y cyfarwyddwyr yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellir ei wella ymhellach dros amser, trwy fabwysiadu strategaethau cadarn a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r ardal allanol yn sylweddol er mwyn cynllunio profiadau dysgu ardderchog.

Mae'r holl ymarferwyr yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r rheolwraig, gyda chefnogaeth bwrdd y cyfarwyddwyr, wedi sefydlu trefniadau trylwyr i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae cydweithio effeithiol ymysg ymarferwyr o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn yn llwyddiannus iawn. Mae'r ymarferwyr yn gwerthuso gwaith y lleoliad yn gydwybodol ac maent yn rhannu syniadau'n synhwyrol. Mae'r rheolwraig yn defnyddio'r cyllid yn effeithlon iawn er mwyn cefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant trwy sicrhau hyfforddiant buddiol, adnoddau o ansawdd da a lefelau uchel o staffio.

Mae'r rheolwraig yn ymateb yn dda iawn i ddeilliannau hunanarfarnu. Mae'n adnabod y prif feysydd i'w datblygu ac yn cymryd camau cadarn i gynnal arferion effeithiol a rhoi newidiadau ar waith. Mae ymarferwyr yn monitro a gwerthuso cynnydd mewn timau yn effeithiol i ddatblygu medrau plant a gwella'r ddarpariaeth. Mae cysylltiadau ardderchog yn bodoli rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth dda iawn i feini prawf llwyddiant, cyllid a chyfrifoldebau penodol yn ogystal â chaniatáu amser ymarferol i gamau gweithredu gael effaith.

Mae aelodau o fwrdd y cyfarwyddwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn rheolaidd. Mae cynrychiolwyr yn cynnal ymweliadau monitro ac yn arsylwi'r addysgu yn ffurfiol er mwyn adrodd yn ôl i weddill yr aelodau. Mae'r adroddiadau ysgrifenedig hyn yn sail gadarn ar gyfer cynllunio pellach ar gyfer gwella.

Mae'r ymarferwyr ac aelodau o fwrdd y cyfarwyddwyr yn agored i syniadau newydd ac yn awyddus i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Mae'r ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn syniadau awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ystod eang o bartneriaethau'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles y plant. Mae perthynas y lleoliad gyda rhieni yn gadarnhaol iawn ac maent yn rhannu gwybodaeth gyda nhw yn effeithiol trwy daflenni gwybodaeth a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfleoedd anffurfiol a chyfeillgar dyddiol yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth briodol am ddatblygiad eu plant. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â gweithwyr allweddol yn ôl y galw. Mae'r trefniant hwn yn annog rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant yn llwyddiannus. Enghraifft dda o'r bartneriaeth yw parodrwydd y rhieni i adeiladu adnoddau ar gyfer yr ardal tu allan gan ddefnyddio pren sydd wedi'i ailgylchu. Mae'r holl rieni yn gwerthfawrogi ymdrechion yr ymarferwyr, yn enwedig y safonau uchel o ofal ac ansawdd yr addysg. Mae'r berthynas hon yn cychwyn ymhell cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad wrth i'r rheolwraig gynnal diwrnodau agored defnyddiol i ddarpar rieni.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau cadarn gyda'r ysgol leol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am blant unigol. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn elwa'r lleoliad yn briodol, drwy weithredu hyfforddiant a chynghori'r ymarferwyr. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau'n helpu symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth bwrpasol ac arweinyddiaeth effeithiol iawn.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol helaeth yn dda iawn i gefnogi dysgu'r plant. Er enghraifft, fel rhan o ddathliadau'r lleoliad yn ddeng mlwydd oed, bu'r plant yn gweithio gydag awdures leol er mwyn creu llyfr am gymeriad o'r enw 'Seren Fach', yn ogystal â chyhoeddi llyfr trwsiadus o hoff ryseitiau'r plant.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant sefydlog o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau cadarnhaol gyda'r awdurdod lleol, y gymuned leol a'r ysgolion sydd yn derbyn y plant ar gyfer addysg amser llawn.

Mae'r arweinyddiaeth yn gadarnhaol ac yn anelu'n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at hyfforddiant pwrpasol ac addysgu a dysgu effeithiol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu effeithiol yr holl ymarferwyr. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys sydd â mynediad rheolaidd i hyfforddiant addas.

Mae gan y rheolwraig ddealltwriaeth dda iawn o'r gyllideb ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn cefnogi'r lleoliad yn dda er mwyn rheoli ei adnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant. Mae hyn yn arwain at safonau uchel o ran yr addysgu, deilliannau plant, yr adeilad ac adnoddau'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian oherwydd darpariaeth effeithiol yr ymarferwyr, y profiadau dysgu ysgogol a'r arweinyddiaeth ardderchog.

Rhestr termau

| | |
|---|---|
| AGGCC | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| Athro ymgynghorol awdurdod lleol | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| Y Cyfnod Sylfaen | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA) | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| Meysydd Dysgu | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol |
| Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|--|
| Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP) | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| Mudiad Meithrin | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |